

bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 248 (Cymru) – 26 Medi 2019

Astudiaeth y Comisiwn Etholiadol o gywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholwyr mis Rhagfyr 2018

Heddiw, mae'r Comisiwn Etholiadol wedi [cyhoeddi canfyddiadau ei astudiaeth ddiweddaraf](#) o gofrestrau etholwyr ym Mhrydain Fawr.

Roedd yr astudiaeth yn archwilio cywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestrau ym Mhrydain Fawr ar 1 Rhagfyr 2018. Er bod cyfran y bobl ifanc sydd wedi'u cofrestru i bleidleisio yn parhau'n sefydlog, mae pobl ifanc a rhentwyr preifat yn parhau i fod yn llai tebygol o fod wedi'u cofrestru'n gywir.

Ein prif ganfyddiadau

Mae'r canlyniadau ar gyfer Prydain Fawr ym mis Rhagfyr 2018 yn dangos y canlynol:

- Roedd cofrestrau seneddol 85% yn gyflawn ac 89% yn gywir
- Roedd cofrestrau llywodraeth leol 83% yn gyflawn ac 89% yn gywir.

Arweiniodd y canfyddiadau at ddau brif amcangyfrif, sef: nid oedd rhwng 8.3 a 9.4 miliwn o bobl ym Mhrydain Fawr a oedd yn gymwys i fod ar y cofrestrau llywodraeth leol wedi'u cofrestru'n gywir; roedd rhwng 4.7 a 5.6 miliwn o gofnodion anghywir ar y cofrestrau llywodraeth leol.

Rhentwyr preifat yw'r rhai lleiaf tebygol o hyd i gael cofnodion cyfredol ar y gofrestr (58%) o gymharu â phobl sy'n berchen ar eu tai yn llwyr (91%).

Mae lefelau cofrestru hefyd yn isel ymysg pobl ifanc rhwng 18 a 34 oed, a dim ond 71% sydd wedi'u cofrestru'n gywir, o gymharu â 93% ar gyfer pobl 55 oed a throsodd.

Rydym wedi cyhoeddi amcangyfrifon cenedlaethol manwl ar gyfer cofrestrau etholwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, yn ogystal ag amcangyfrifon ar gyfer pob rhanbarth yn Lloegr.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Astudiaeth y Comisiwn Etholiadol o gywirdeb a chyflawnrwydd cofrestrau etholwyr mis Rhagfyr 2018

Gwybodaeth a doleri adroddiad y Comisiwn ar gywirdeb a chyflawnrwydd y cofrestrau etholwyr ym Mhrydain Fawr a gyhoeddwyd heddiw (Dydd Iau 26 Medi).

Etholiadau Mai 2020: cyhoeddi canllawiau

Gwybodaeth am gyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ar gyfer etholiadau Mai 2020.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#). Gallwch hefyd [danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol](#).

Cofiwch [roi gwybod i ni](#) am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y

Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd wedi asesu'r gofrestr etholwyr yng [Ngogledd Iwerddon](#). Canfu ein hymchwil bod cywirdeb a chyflawnrwydd y gofrestr yng Ngogledd Iwerddon ar 1 Rhagfyr 2018 wedi gostwng yn ôl i'r lefelau a gofnodwyd yn 2012. Roedd yr astudiaeth hefyd yn dangos mai pobl ifanc a rhentwyr preifat yw'r rhai lleiaf tebygol o hyd o fod wedi'u cofrestru'n gywir.

Ein hargymhellion

Mae'r Comisiwn wedi galw o'r newydd am foderneiddio'r system cofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr er mwyn cynnig y cyfle gorau posibl i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl wedi'u cofrestru'n gywir.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd y Comisiwn [Astudiaethau dichonoldeb](#) a oedd yn ymchwilio i'r ffyrdd gwahanol y gallai data cyhoeddus wella'r system gofrestru etholiadol a sut y gallai diwygiadau i'r broses gofrestru weithio yn ymarferol. Gallai'r opsiynau a gafodd eu harchwilio yn yr astudiaethau hyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau penodol a amlygwyd yn yr ymchwil i gywirdeb a chyflawnrwydd.

Er enghraifft:

- Byddai cael mynediad rheolaidd at ddata dibynadwy o amrywiaeth ehangach o wasanaethau cyhoeddus ynghylch pobl sydd wedi diweddarau manylion eu cyfeiriad yn ddiweddar yn galluogi Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gysylltu'n uniongyrchol â nhw yn eu cyfeiriad newydd er mwyn eu hannog i gofrestru i bleidleisio.
- Gallai integreiddio ceisiadau cofrestru etholiadol mewn trafodion gwasanaethau cyhoeddus eraill ei gwneud hi'n haws i unigolion sicrhau bod eu manylion cofrestru yn gyfredol ac yn gywir.
- Gallai diwygiadau fel defnyddio data yr Adran Gwaith a Phensiynau i gofrestru pobl ifanc yn awtomatig pan gânt eu rhif Yswiriant Gwladol, er enghraifft, gael effaith gadarnhaol go iawn ar lefelau cofrestru.

Etholiadau Mai 2020: cyhoeddi canllawiau

Rydym bellach wedi diweddarau Rhan A a Rhan B o'n canllawiau craidd ar gyfer [Swyddogion Canlyniadau](#) cyn yr etholiadau ar gyfer y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau sydd wedi'u trefnu ar gyfer mis Mai 2020.

At hynny, rydym hefyd wedi ailgyhoeddi canllawiau cynllunio ar gyfer [Swyddogion Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu](#) i gefnogi eu paratodau ar gyfer etholiadau Mai 2020.

Nid yw'r canllawiau wedi newid llawer o gymharu â blynyddoedd blaenorol, ac mae'r diweddariadau'n canolbwyntio'n bennaf ar adlewyrchu GDPR. Mae'r log newid ar flaen pob Rhan o'r canllawiau wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r diwygiadau sydd wedi cael eu gwneud.

Byddwn yn cyhoeddi Rhannau C - F o'n canllawiau i Swyddogion

Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd>)

Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [ddatdanysgrifio](#) ar unrhyw adeg.

Canlyniadau, yn ogystal â chanllawiau pellach i Swyddogion
Canlyniadau Ardaloedd yr Heddlu, dros y mis nesaf, a byddwn yn
rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi mewn Bwletinau yn y dyfodol
pan fydd y rhain ar gael.

.....
Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500
infowales@electoralcommission.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019